



Crynodeb o'r Ymgynghoriad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Rhan 4

Cyfrannu at Daliadau

Uniongyrchol a dewis cartref
gofal



Rhan 5

Talu am ofal a chymorth



Rheolau a gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r Ddeddf



Fersiwn Hawdd ei Darllen



Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014



Mae'r Ddeddf newydd yn ymwneud â gofal cymdeithasol yng Nghymru.



Daw'r Ddeddf i rym ym mis Ebrill 2016.




Yn ogystal â'r Ddeddf, ceir:



- rheolau. Gelwir y rheolau yn **Rheoliadau.**



- gwybodaeth am sut i gydymffurfio â'r gyfraith, sef **Codau Ymarfer** neu **Ganllawiau Statudol.**



Sut y gwnaethom y gwaith hwn



Gwnaethom wrando ar arbenigwyr o bob cwr o Gymru.



Yna, gwnaethom nodi ein syniadau.



Nawr rydym am wybod beth yw barn pawb.



Mae sawl Rhan i'r Ddeddf newydd.
Mae pob Rhan yn ymwneud â rhywbeth gwahanol.



Rhwng mis Mai a mis Gorffennaf, rydym yn gofyn i bawb am eu barn ar y rheolau ar gyfer:



Rhan 4

Cyfrannu at Daliadau Uniongyrchol a dewis cartref gofal

a

Rhan 5

Talu am ofal a chymorth



Rhan 6

Plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal





Rhan 9

Cydweithio



Rhan 10

Gwasanaethau Eirioli





Rhan 4 a Rhan 5



Mae Rhan 4 yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol ac mae'n nodi y gall cynghorau lleol ofyn i rai pobl gyfrannu at eu gofal a'u cymorth.



Mae Rhan 4 hefyd yn ymwneud â rhoi'r cyfle i bobl ddewis y cartref gofal yr hoffent fyw ynddo.



Mae Rhan 5 yn ymwneud â gallu cynghorau lleol i godi tâl ar unigolyn am ofal a chymorth.



Ni all cyngor lleol godi mwy na'r canlynol:



- hyd at gost darparu'r gofal a'r cymorth



- yr hyn y gall yr unigolyn ei fforddio



Rheolau o ran cyfrannu at Daliadau Uniongyrchol a thalu am ofal a chymorth



Bydd cynghorau lleol yn defnyddio'r
un rheolau i weithio allan:



- yr hyn y bydd rhywun yn ei dalu
am ofal a chymorth



- yr hyn y bydd rhywun yn ei
gyfrannu at ei gymorth os yw'n
cael Taliadau Uniongyrchol



Rheolau o ran dewis cartref gofal

Gall pobl ddewis pa gartref gofal yr hoffent fyw ynddo.



Os yw'r cartref gofal yn ddrutach na'r hyn y mae'r cyngor lleol fel arfer yn ei dalu, efallai y bydd yn rhaid i rywun arall dalu'r gost ychwanegol.



Rheolau o ran codi tâl ar bobl am ofal a chymorth



O dan y Ddeddf newydd, gall cynghorau lleol ddewis a fyddant yn codi tâl am ofal a chymorth ai peidio.



Y rheolau a'r wybodaeth o ran sut i gydymffurfio â'r Ddeddf:



- ceir un set o reolau i weithio allan faint y bydd yn rhaid i bobl ei dalu, ni waeth pa fath o ofal a chymorth y maent yn ei gael



- bydd uchafswm y byddwch yn ei dalu bob wythnos o hyd. Ni fydd neb yn talu mwy na hyn.



£24,000



- bydd yn rhaid i unigolyn sydd â mwy na £24,000 dalu'r gost lawn os yw'n byw mewn cartref gofal



- gall pobl gael chwe wythnos o ofal cartref am ddim o hyd os ydynt wedi bod yn yr ysbyty



- ni ellir codi tâl ar neb am wybodaeth neu gyngor



- gall cynghorau lleol godi tâl am helpu pobl i ddod o hyd i wasanaethau a'u defnyddio



- mae'n rhaid i gynghorau lleol sicrhau bod pawb yn gwybod am beth y maent yn talu, a pham



Rheolau o ran talu maes o law



Mae gan rai pobl eu cartref eu hunain. Yna maent yn mynd i fyw mewn cartref gofal ac yn gadael y tŷ yn wag.



Mae'n rhaid i'r bobl hyn dalu am y cartref gofal.



Ond weithiau, gall gymryd amser i werthu tŷ.



Felly, gall cyngor lleol dalu costau cartref gofal unigolyn.



Yna pan fydd yn gwerthu'r tŷ, bydd y cyngor lleol yn cael ei arian yn ôl.

Bydd y rheolau'n nodi sut y bydd cynghorau lleol yn gwneud hyn.



Bydd cynghorau lleol yn gallu codi llog ar y taliadau a wnaed ganddynt i dalu costau cartref gofal unigolyn.



Rheolau o ran cadarnhau a yw'r tâl yn gywir

Ar hyn o bryd, mae modd cadarnhau a yw'r tâl am y gofal a'r cymorth y mae unigolyn yn ei gael gartref yn gywir.



Bydd y rheolau newydd yn sicrhau y gall unigolyn **hefyd** gadarnhau'r tâl am gostau cartref gofal a'r cyfraniad at Daliadau Uniongyrchol.